

17-20 Mehefin 2025



Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cefndir	2
Dirprwyaeth	3
Diwrnod 1	6
Diwrnod 2	12
Diolchiadau	16

Cyflwyniad

Thema Cynhadledd Ynysoedd Prydain a Rhanbarth Môr y Canoldir y CPA eleni oedd “Mynd i'r Afael ag Anghenion Senedd Fodern”, a oedd yn edrych ar y mesurau democrataidd sydd ar waith i ddiogelu cynrychiolaeth amrywiol mewn seneddau, yn ogystal â'r gefnogaeth a'r addysg sydd ar gael i seneddwr eu hunain. Trafododd y cynrychiolwyr bwysigrwydd cynhwysiant ac effaith profiad bywyd ar lunio polisiau a phrosesau democrataidd. Roedd y pynciau'n amrywio o lesiant yn y senedd i dirwedd esblygol ymgysylltiad gwleidyddol. Rhannodd aelodau Senedd Ieuencid Cymru eu profiadau gyda chynrychiolwyr.

Roedd gweithgareddau'r gynhadledd yn cynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol a lansio'r Rhwydwaith LHDT+ rhanbarthol, a agorwyd gan y Llywydd, Elin Jones AS, a'r Ysgrifennydd Rhanbarthol Sarah Dickson. Mewn sesiwn ar leisiau LHDT+ yn y Senedd, trafododd y cynrychiolwyr anghysondeb y cynnydd a fu mewn rhai awdurdodaethau, yn ogystal â chydabod y gwahaniaethau rhanbarthol a rôl Rhanbarth BIM wrth arwain trwy esiampl yn y maes hwn. Trafodwyd cynrychiolaeth pobl ag anableddau hefyd mewn sesiwn a ymdriniodd â phwysigrwydd ymgorffori unigolion ym mhob proses waith y senedd.

Hefyd, rhoddodd y gynhadledd gyfle i'r cynrychiolwyr rwydweithio'n weithredol a chroesawu Aelodau Prif Bleidiau Sark, gan nodi'r 14eg awdurdodaeth i ymuno â'r rhanbarth.

Cynhaliwyd y Gynhadledd dros dri diwrnod ac roedd yn cynnwys cyfres o sesiynau llawn a gweithdai. Fe'i hagorwyd gan y Llywydd, Elin Jones AS, a daeth i ben gydag anerchiad gan Gadeirydd Senedd y CPA, Rhun ap Iorwerth AS.



Credyd tudalen deitl a'r llun uchod: CPA Cymru

Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir (BIMR)

Mae grŵp Ynysoedd Prydain a Gwledydd Môr y Canoldir yn cynnwys Alderney, Cyprus, Ynysoedd Falkland, Gibraltar, Guernsey, Ynys Manaw, Jersey, Gogledd Iwerddon, yr Alban, St Helena, y DU a Chymru. Bydd cais Sark i ymuno â CPA yn cael ei gyflwyno yng Nghynulliad Cyffredinol 2025.

CPA UK sy'n gwasanaethu fel ei Ysgrifenyddiaeth. Mae tri Chynrychiolydd Rhanbarthol o'r rhanbarth yn eistedd ar Bwyllgor Gweithredol rhyngwladol y CPA: Stuart McMillan AS (Yr Alban), y Dirprwy Mary Le Hegarat (Jersey) a'r Gwir Anrhydeddus David Mundell AS (DU).

Strategaeth BIMR CPA

Nodau'r rhanbarth yw cydweithio i gyflawni pwrpas y Gymdeithas; hyrwyddo cysylltiadau agos ymhlith ei changhennau a'i aelodau; a meithrin cysylltiadau agos â rhanbarthau eraill y Gymdeithas.

Mae pob Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yn cytuno ar thema i gydweithio arni drwy gydol y flwyddyn ganlynol. Mae gwaith thematig yn cael ei arwain gan Weithgor a gefnogir gan yr Ysgrifenyddiaeth. Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2025 cytunodd y cynrychiolwyr i barhau â gwaith ar y cyd ar **'Trawsnewid Digidol mewn Seneddau'**.



Dirprwyaeth

CPA Cyprus



Y Gwir Anrh. Christos Orphanides MP
Christiana Solomonidou – Ysgrifennydd Dirprwyaeth

CPA Gibraltar



Y Gwir Anrh. Leslie Bruzon MP
Christian Santos GMD MP
Craig Sacarello MP
Edwin J Reyes MP
Phillip Borge McCarthy - Ysgrifennydd Dirprwyaeth

CPA Guernsey



*Nid oedd unrhyw Ddirprwyon yn gallu mynychu oherwydd etholiadau
Simon Ross, Ysgrifennydd Dirprwyaeth

CPA Ynys Manaw



Llywydd Juan Watterson, SHK
Kirstie Morphet MLC
Paul Craine MLC
Tim Crookall MHK
Carlos August-Phillips - Ysgrifennydd Dirprwyaeth

CPA Jersey



Dirprwy Montfort Tadier
Dirprwy Louise Doublet
Connétable Mike Jackson
Eva Patterson - Ysgrifennydd Dirprwyaeth

CPA Malta



Y Gwir Anrh. Carmelo Abela MP
Y Gwir Anrh. Graziella Attard Previ MP
Y Gwir Anrh. Ian Vassallo MP
Emma Terribile - Ysgrifennydd Dirprwyaeth

Dirprwyaeth

CPA Gogledd Iwerddon



Steve Aiken, MLA OBE

Jonathan Buckley MLA

Paul Frew, MLA

Michelle McIlveen MLA

Nicola Crawford - Ysgrifennydd Dirprwyaeth

CPA Sarc



Llywydd Paul Armorgie

Conseiller Natalie Tighe

William Spooner - Ysgrifennydd Dirprwyaeth

CPA Yr Alban



Jeremy Balfour MSP

Sarah Boyack MSP

Stuart McMillan MSP

Jamie Greene MSP

Charlotta Craig – Ysgrifennydd Dirprwyaeth

CPA St Helena



*Nid oedd unrhyw Gynghorwyr yn gallu mynychu oherwydd etholiadau

CPA DU



Barwnes Gloria Hooper

Gwir Anrh. David Mundell MP

Kate Osamor MP

Sarah Dickson, BIM Ysgrifennydd Rhanbarthol

Helen Haywood, Ysgrifennydd Dirprwyaeth

Matthew Hamilton, CPA DU

Dirprwyaeth

CPA Cymru



Llywydd, Elin Jones AS
Rhun ap Iorwerth AS
Delyth Jewell AS
Natasha Asghar AS
Sam Rowlands AS
Alun Davies AS
DPO, David Rees AS
Al Davies, Ysgrifennydd Dirprwyaeth
Elin Sutton, CPA Cymru

Ysgrifenyddiaeth Pencadlys CPA



Stephen Twigg, CPA Ysgrifennydd Cyffredinol
Sharon Moses, Pennaeth Adnoddau Dynol

Arsylwyr Rhyngwladol



Mynychodd cynrychiolwyr o Senedd Taleithiol Western Cape a



Chynulliad Cenedlaethol Quebec y Gynhadledd fel arsylwr.



Diwrnod 1

Anerchiad Agoriadol

Agorwyd y Gynhadledd yn swyddogol gan y Llywydd, Elin Jones MS, a rhoddwyd sylwadau agoriadol gan Dr Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr & Clerc y Senedd ac Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas Seneddol, Stephen Twigg.



Credyd llun: CPA Cymru

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol BIMR

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol BIMR, clywodd y cynrychiolwyr gan gynrychiolwyr rhanbarthol ar lywodraethu CPA a diweddariadau i'r rhaglen. Cynhaliwyd etholiad Cadeirydd Pwyllgor Gwaith BIMR ac etholwyd y Dirprwy Sasha Kasantseva-Miller (Guernsey) yn Gadeirydd newydd. Cadeiriwyd y Cyfarfod gan Gynrychiolydd Rhanbarthol CPA, Stuart McMillan (Yr Alban), a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Ysgrifennydd Rhanbarthol Sarah Dickson, Cadeirydd Dros Dro Pwyllgor Llywio Seneddswyr Benywaidd y Gymanwlad BIMR Sarah Boyack MSP (Yr Alban), Hyrwyddwr Rhanbarthol Seneddswyr Cymanwlad ag Anableddau BIMR Jeremy Balfour MSP (Yr Alban) a Chynrychiolydd Rhanbarthol y Canghennau Bach Adrian Gabriel (Guernsey).

Cytunodd y cynrychiolwyr i barhau â thema strategol 24/25 Trawsnewid Digidol ar gyfer 2025/26 gan fod gwaith i'w wneud o hyd ar hyn. Mae cofnodion llawn y cyfarfod ar gael gan Ysgrifenyddiaeth BIMR y CPA.

Diwrnod 1

Cyfarfod Llawn 1: “Profiad Senedd Ieuenctid Cymru – Gwersi a ddysgwyd”

Archwiliodd y sesiwn hon strwythur Senedd Ieuenctid Cymru (SIC) a hyrwyddodd ei rôl wrth roi llais i bobl ifanc o fewn prosesau democrataidd yng Nghymru. Tynnodd sylw at bwysigrwydd ymgysylltu ieuenctid ac effaith safbwyntiau ieuenctid ar lunio polisiau. Agorodd y Llywydd Elin Jones AS y cyfarfod llawn a nododd y rôl amlwg y mae SIC wedi'i chwarae mewn gwneud penderfyniadau yng Nghymru, yn annibynnol ar wleidyddiaeth plaid.

Esboniodd Delyth Lewis (Rheolwr Prosiect Senedd Ieuenctid) fod deugain o seddi wedi'u hethol yn ddemocrataidd a'r 20 sedd sy'n weddill wedi'u hethol gan sefydliadau partner, er mwyn sicrhau amrywiaeth ac ymdrin â'r her tangynrychiolaeth. Tynnodd sylw at y system etholiadol sy'n gyfeillgar i bobl ifanc, sy'n cynnwys pleidleisio ar-lein a chofrestru cyflym, a nododd fod SIC wedi llunio ei rhaglen waith ei hun, gyda ffocws y tymor hwn yn cynnwys yr argyfwng costau byw, trafnidiaeth gyhoeddus, a throseddau a diogelwch. Adroddodd fod trafodaethau pwyllgor wedi cyfrannu at amrywiaeth o ymholiadau ac ymgynghoriadau'r Senedd. Amlinellodd brofiadau allweddol Aelodau SIC gan gynnwys ymgysylltiad Gweinidogol, sesiwn ar y cyd o'r Senedd â'r Senedd, a chyflwyno adroddiadau cyhoeddus i Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y fenter tocyn bws £1 i bobl 16-21 oed.

Soniodd Gwion Rhisiart am ei brofiad fel aelod o SIC a nododd gefndiroedd amrywiol yr aelodau. Tynnodd sylw at bwysigrwydd profiad byw wrth ddylanwadu'n llwyddiannus ar bolisiau arwyddocaol, megis strategaeth iechyd meddwl Llywodraeth Cymru a diwygio addysg.

Trafodaeth

Nododd y cynrychiolwyr nad oedd effaith SIC wedi dylanwadu ar nifer y bobl 16/17 oed a bleidleisiodd eto, fodd bynnag, disgwylid y byddai symud i gofrestru awtomatig yng Nghymru o gymorth i fynd i'r afael â'r mater hwn. Er bod pobl ifanc yn ymwneud â materion gwleidyddol, nid ydynt o bosibl yn cysylltu'r achosion hyn â phleidiau democrataidd nac etholiadau. Argymhellwyd addysg wleidyddol well i gysylltu etholiadau â bywyd modern.

Nododd y cynrychiolwyr effaith newidiadau yn y dyfodol i etholiadau'r Senedd. Codwyd statws adroddiadau SIC a'u safle mewn gweithdrefnau llywodraeth, a arweiniodd at awgrym o adolygiad o'r Rheolau Sefydlog i ffurfioli'r berthynas rhwng y ddwy Senedd ymhellach. Cefnogodd y cynrychiolwyr gyflwyno system i gymharu seneddau ieuenctid er mwyn monitro eu llwyddiant a hwyluso cyfnewid arfer da.

Diwrnod 1

Dewisodd y cynrychiolwyr rhwng dau weithdy yn edrych ar gynnwys lleisiau LHDT+ a phobl ag anableddau mewn seneddau:

Gweithdy A: "Pwysigrwydd lleisiau LHDT yn y Senedd"

Roedd y gweithdy hwn yn tynnu ar brofiad byw ymgyrchwyr cydraddoldeb a deddfwyr sydd wedi gweithio ar draws llinellau pleidiau i hyrwyddo cynhwysiant. Archwiliodd effaith cynrychiolaeth ddilys ar ddeddfwriaeth a sut i ddiogelu'r rhai sy'n cyflawni newid. Agorodd Adam Price AS (Cymru) y sesiwn a thynnu sylw at bwysigrwydd gwelededd LHDT+ yn y Senedd.

Mynegodd Jamie Green AS (Yr Alban) yr her o gynnal arweinyddiaeth gynrychioliadol pan fydd gwyntoedd gwleidyddol yn newid. Cydnabu'r gwaith a wnaed gan wleidyddion blaenorol i hyrwyddo hawliau LHDT, yn enwedig yn eu hymgyrch dros grwpiau trawsbleidiol LHDT. Roedd pynciau blaenorol gwaith grŵp trawsbleidiol yn cynnwys cyflwyno amrywiaeth yn y cwricwlwm, dod â therapi trosi i ben a Diwygio Cydnabod Rhywedd. Cydnabu Jamie Green AS y gallai bod yn LHDT+ fod yn rhwystr mawr i fynediad gwleidyddol i rai pobl a bod modelau rôl yn rhan annatod o'r broses hon. Daeth i'r casgliad, er bod llawer o ddadleuon wedi bod yn hynod rhaniadol, ei bod yn hanfodol arwain trwy esiampl gyda gwaith trawsbleidiol wrth siarad am faterion LHDT.

Cydnabu'r Anrhydeddus Graziella Attard Previ (Malta) yr anhawster o gynnal cynnydd ar gyfer hawliau LHDT+, yn enwedig pan fo gwerthoedd traddodiadol yn parhau i rwystro trafodaethau ar amrywiaeth. Cydnabu fod deddfau cydraddoldeb cryf a chefnogaeth drawsbleidiol i hawliau LHDT wedi eu cyflwyno yn Senedd Malta ond nododd nad oedd unrhyw wleidyddion yn mynegi barn agored a bod Aelodau cefnogol wedi parhau i wynebu adlach. Rhoddodd bwyslais ar gyfrifoldeb pleidiau i hyfforddi, cyflawni gwaith allgymorth a chynnal mentrau arweinyddiaeth i fynd i'r afael â hyn.



Credyd llun: CPA Cymru

Nododd yr Anrhydeddus Attard Previ bwysigrwydd dynoleiddio polisi trwy realiti bywyd seneddwyr. Daeth i'r casgliad bod angen i Seneddau hyrwyddo amrywiaeth yn hytrach na'i oddef, yn enwedig tra bod perthnasoedd rhwng pobl o'r un rhyw yn dal i gael eu troseddoli mewn 35 o wledydd y Gymanwlad.

Diwrnod 1

Soniodd Hannah Blythyn AS (Cymru) am ei hymgeisyddiaeth a'r penderfyniad ymwybodol a gymerwyd gan seneddwr i fod yn weladwy ac yn "onest ac agored mewn gwleidyddiaeth". Cofiodd am y prinder modelau rôl oedd ar gael iddi fel menyw ifanc a soniodd am ryngweithio cyffrous gyda dau fachgen ifanc a deimlai fod ei gwelededd wedi eu helpu. Esboniodd ei bod hi'n teimlo dyletswydd i wasanaethu pobl LHDT Cymru ac angori'r genhedlaeth nesaf. Ailadroddwyd effaith profiad bywyd ar lunio polisiau ochr yn ochr â phwysigrwydd gwaith trawsbleidiol. Nododd Adam Price AS (Cymru) y gallai seneddwr anghytuno â pholisi, ond bod straeon personol yn gwahodd pobl i gael math gwahanol o sgwrs ac felly'n ailgyfeirio'r ffocws.

Amlinellodd yr Anrhydeddus Christian Santos (Gibraltar) ei brofiad fel y Gweinidog cyntaf allan yn Senedd Gibraltar. Fel cymuned ffydd, roedd Gibraltar wedi datblygu'n sylweddol dros y 14 mlynedd diwethaf ond pwysleisiodd yr Anrhydeddus Santos bwysigrwydd addysgu cymunedau i ddeall bod gwleidyddion LHDT+ yn gwasanaethu'r gymuned gyfan, waeth beth fo'u rhywioldeb. Siaradodd am yr angen i leisio barn yn erbyn y gwrthwynebiad byd-eang ar hawliau LHDT+ a nododd nad oedd llawer o bleidiau gwleidyddol wedi'u cynrychioli mewn digwyddiadau Pride eleni oherwydd dicter at erydiad LHDT+. Rhybuddiodd am y cwmp cyflym o arweinyddiaeth a allai ddigwydd o ganlyniad.

Trafodaeth

Trafododd y cynrychiolwyr bwysigrwydd deuol deddfwriaeth ac addysg wrth ddod â mwy o amrywiaeth i'r senedd. Nodasant yr esiampl gref a osodwyd gan y rhanbarth ond cytunasant na ellid gorfodi systemau cred ar eraill. Mynegodd y cynrychiolwyr eu cefnogaeth i'r gymuned LHDT+ a nodwyd y dylid harneisio cefnogaeth o bob ardal, yn enwedig lle'r oedd diffyg lleisiau LHDT+. Tynnodd y panel sylw at yr angen i fod yn weladwy pan oedd angen newid o hyd a gofynnodd y cwestiwn: "os na allwn sefyll i fyny fel seneddwr, sut allwn ni ofyn i'n cyngreiriaid wneud hynny?"



Credyd llun: CPA Cymru

Diwrnod 1

Gweithdy B: "Sut y gall Seneddau alluogi cyfranogiad effeithiol a llawn pobl ag anableddau ar bob lefel"

Mae pobl ag anableddau wedi'u tangynrychioli ym mhob Senedd yn y rhanbarth; yn y DU mae gan 20% o'r boblogaeth ryw fath o anabledd. Archwiliodd y sesiwn hon sut y gallai Seneddau fynd i'r afael â'r diffyg cynrychiolaeth hwn a goresgyn y rhwystrau i hygyrchedd mewn mannau gwleidyddol, gan fanteisio ar y cyfleoedd nawr ac a ddaw yn y dyfodol hefyd.

Ceisiodd y gweithdy hwn danlinellu bod Seneddau, pleidiau a chymdeithas yn gyffredinol yn creu'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar gynhwysiant pobl anabl. Nodwyd bod galluogrwydd, anwybodaeth a thraddodiad yn cynnal rhwystrau rhag mynediad i fannau gwleidyddol, a chyda chynhwysiant daw ymdeimlad o ffafr yn hytrach na bod hyn yn cael ei weld fel rhywbeth hanfodol ar gyfer creu cydraddoldeb sefydliadol. Cydnabuwyd bod pleidiau gwleidyddol yn euog o hyn gan eu bod wedi cyfrannu at anhygyrchedd trwy rwystrau megis hygyrchedd lleoliadau, diffyg deunyddiau hygyrch, natur rhai gweithgareddau gwleidyddol (megis canfasio), a diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol gan y rhai o fewn pleidiau gwleidyddol. Cytunwyd bod y methiannau hygyrchedd hyn wedi arwain at golli talent ac uchelgais.

Trafodwyd hefyd effaith seneddau ar gynrychiolaeth pobl anabl. Cytunwyd bod angen i seneddau arwain drwy esiampl a sicrhau bod pobl ag anableddau wedi'u hymgorffori mewn prosesau gwaith. Nodwyd y gallai addasiadau rhesymol wrthdaro â gofynion gwariant ac, yn achos rhai seneddau, â thraddodiadau'r adeiladau. Yn ogystal, gallai addasiadau anhyblyg gyfyngu ar fynediad o hyd.



Credyd llun: CPA Cymru

Edrychodd y cynrychiolwyr y tu hwnt i ddulliau deddfwriaethol gan ddadlau dros ddeialog onest a pharhaus â phobl ag anableddau er mwyn deall eu hanghenion. Byddai angen i ddeddfwriaeth annog atebolrwydd y rhai sydd â chyfrifoldeb i ddiwallu anghenion pobl ag anableddau. Roedd y cynrychiolwyr yn hyrwyddo dull amlochrog a oedd yn cynnwys gwella hygyrchedd corfforol, mynd i'r afael â rhwystrau agweddol a stigma, a hyrwyddo cydraddoldeb. Yn bwysicaf oll, cydnabuwyd bod angen cynnwys pobl ag anableddau ym mhob rhan o fywyd, gan ddechrau ar lefel gwaelodol o fewn pleidiau gwleidyddol. Ystyriwyd bod yr angen i rannu arfer da a chael mynediad at gefnogaeth bresennol a'i hyrwyddo yn hanfodol i wella cynrychiolaeth.

Diwrnod 1

Cyfarfod Llawn 2: “Cefnogi Iechyd Meddwl a Llesiant Seneddwyr”

Ymdriniodd y cyfarfod llawn hwn â themâu allweddol yn ymwneud ag iechyd meddwl mewn seneddau, gan gynnwys baich salwch meddwl a ffactorau straen iechyd meddwl yn y gweithle seneddol. Amlinellodd Dr Leandri Hattingh, cyfrannwr at Becyn Cymorth Iechyd Meddwl y CPA ac arbenigwr iechyd meddwl, negeseuon allweddol o'r Pecyn Cymorth. Rhannodd y panel astudiaethau achos iechyd meddwl ac arfer da yn y gweithle.

Nododd y panel pam mae iechyd meddwl yn bwysig, gan edrych ar gyffredinolrwydd byd-eang salwch meddwl a'r stigma a barhaodd i atal y rhai sydd angen cymorth. Canfu adroddiad yn 2016 fod dros 40% o ASau wedi profi iechyd meddwl gwael a bod gan bron pob un rywun agos atynt â phroblemau iechyd meddwl. Nododd y panel ffactorau allweddol sy'n achosi straen i seneddwyr a chynigiodd system gymorth haenog mewn ymateb. Rhannwyd y ffactorau allweddol sy'n achosi straen yn dair lefel: Straenwyr Macro (diwylliannol) fel diffyg ymddiriedaeth y cyhoedd a phwysau gan y cyfryngau, straenwyr Meso (Sefydliadol) fel arweinyddiaeth wenwynig a chylchoedd gwleidyddol byr, a straenwyr Micro (Unigol) fel oriau hir a chydbwysedd gwael rhwng bywyd a gwaith.

Nodwyd cefnogaeth strwythuredig i helpu i leihau'r ffactorau straen, gan gynnwys atal sylfaenol i feithrin gwydnwch a lleihau risgiau, ymyrraeth eilaidd i annog canfod ac ymateb cynnar, a chefnogaeth drydyddol drwy adsefydlu, adferiad a chefnogaeth yn ôl i'r gwaith. Roedd y gefnogaeth ymarferol yn amrywio o arolygon iechyd meddwl i fwy o gyfnodau sefydlu a hyfforddiant i ASau newydd, yn ogystal â chefnogaeth wrth adael y swydd. Trafododd y panel hefyd offer sefydliadol fel Rhaglenni Cymorth i Weithwyr (EAPs) a hyrwyddwyr cymorth gan gymheiriaid.

Amlinellodd y Dirprwy Marie-Louise Tardif (Québec) y gefnogaeth iechyd meddwl a ddarperir i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Québec, gan gynnwys seicolegwyr oddi ar y safle ar gyfer preifatrwydd a chwnselwyr i ASau a'u teuluoedd. Nododd y parch a roddir i iechyd meddwl seneddwyr, yn ogystal â'r polisïau sy'n gyfeillgar i deuluoedd a'r gofal dydd galw heibio. Amlinellodd y nifer o fentrau lles sydd ar waith, gan gynnwys rhoi diwedd ar sesiynau nos arferol a chyflwyno seibiannau iechyd meddwl rhithwir.



Credyd llun: CPA Cymru

Diwrnod 2

Lansio Digwyddiad Rhwydwaith LHDT+ BIMR

Agorwyd lansiad Rhwydwaith LHDT+ BIMR gan yr Ysgrifennydd Rhanbarthol Sarah Dickson a'r Llywydd Elin Jones AS. Fe wnaethant ddathlu ei bresenoldeb pwysig mewn gweithgareddau rhanbarthol.

Siaradodd y Gwir Anrhydeddus David Mundell AS (DU) am bwysigrwydd gwelededd. Nododd ei fod yn Rhwydwaith rhanbarthol ond y gallai cynghreiriaid o'r tu allan i'r rhanbarth ymgysylltu hefyd. Tynnodd y Dirprwy Louise Doublet (Jersey) sylw at yr angen i weithio gyda chynghreiriaid a phwysigrwydd y rhwydwaith wrth annog ymgeiswyr i sefyll mewn etholiad. Mynegodd y mater o anwelededd deurywiol a'r frwydr dros gynhwysiant, yn y senedd a thu allan iddi.

Rhannodd Stephen Twigg adborth y dylai'r CPA fod yn fwy rhagweithiol ar hawliau dynol ond nododd yr heriau sy'n gysylltiedig â gwahanol gyd-destunau cyfreithiol a'r angen i weithio trwy gonsensws. Roedd yn hyrwyddwr dros hyrwyddo arfer da a chododd bwysigrwydd partneriaethau. Tynnodd sylw at sefydlu platfform ar-lein ar gyfer seneddswyr LHDT+.

Soniodd Adam Price AS (Cymru) am etifeddiaeth yr Arglwydd Chris Smith, yr Aelod Seneddol LHDT agored cyntaf yn y Gymanwlad. Nododd fod profiad byw yn hanfodol a byddai gwaith ar y cyd o gymorth, gan fod rhannu straeon yn creu deialog. Cyfeiriodd at y cynnydd sy'n cael ei wneud, er gwaethaf yr ymateb ar hyn o bryd.



Credyd llun: CPA Cymru

Diwrnod 2

Gweithdy C: Newid y Rheolau Ymgysylltu: Sut mae seneddwyr modern yn ymgysylltu mewn tirwedd ddigidol sy'n esblygu

Edrychodd y gweithdy hwn ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg ymhlith Aelodau etholedig fel rhan o'u hymgysylltiad â'r etholwyr. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar ddefnydd arloesol o lwyfannau digidol a newidiadau mewn arferion cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys tynnu'n ôl o lwyfannau ar-lein. Agorodd Delyth Jewell MS (Cymru) y sesiwn a myfyriodd ar y dirwedd ddigidol sy'n newid, gyda phwyslais ar y diffyg grym a allai ddeillio o gam-drin neu adlach ar-lein.

Siaradodd yr Anrhydeddus Khaled Sayed (Western Cape, De Affrica) am y gwrthdaro rhwng cyfryngau cymdeithasol fel offeryn hanfodol ar gyfer ymgysylltu a'r anghydraddoldebau hanesyddol y gallai eu gwaethygu. Nododd fod trafodion seneddol hybrid ei senedd wedi galluogi'r cyhoedd ehangach i ymuno ar-lein ond nad oeddent yn gallu cyrraedd y pentrefi a'r trefgorddau gwledig sydd heb y rhyngwrdd. Yn ogystal, roedd y ffrydlif o newyddion ffug a dadleuon wedi'u polareiddio wedi arwain at lawer yn cael eu dadrithio ac yn troi at arweinwyr lleol. Cynigiodd yr Anrhydeddus Sayed gyfuno ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol â chyfarfodydd wyneb yn wyneb a soniodd am bwysigrwydd ymgysylltu â phobl ifanc a mannau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc. Daeth i'r casgliad bod offer digidol yn bwerus ond bod rhaid i gymunedau ddod yn gyntaf.

Soniodd Sarah Boyack AS (Yr Alban) am y newid mewn cyfathrebu dros y blynyddoedd a'r cyfleoedd y mae llwyfannau digidol wedi'u darparu i seneddwyr. Tynnodd sylw at effaith Covid ar ymgysylltu ar-lein, wrth i gyfathrebu ddod yn fwy hygyrch i etholwyr gwledig a chynnig hyblygrwydd i'r rhai â theuluoedd neu gyfrifoldebau. Fodd bynnag, nododd y risg o allgáu aelwydydd incwm isel.

Cododd Sarah Boyack AS y mater o gam-drin ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig casineb at fenywod ac ymddygiad bygythiol. Pwysleisiodd yr angen i rannu arferion da, fel mentrau iechyd meddwl ar gyfer Aelodau a'u staff, gan fod gan wahanol ddeddfwrfeydd wahanol heriau. Cyfeiriodd at y platfform "Parliament Citizen Space" yn Senedd yr Alban, fforwm cyhoeddus sy'n cael ei fonitro sy'n rhoi cyfle i gysylltu ag aelodau'r cyhoedd y tu allan i'r cyfryngau cymdeithasol traddodiadol. Roedd prosiect peilot hefyd wedi bod dros y flwyddyn ddiwethaf i gefnogi ASau i fonitro camdriniaeth. Nododd Delyth Jewell AS (Cymru) gyfrifoldeb cwmnïau i wneud llwyfannau ar-lein yn ddiogel. Tynnodd sylw at y bygythiadau cyffredin tuag at seneddwyr benywaidd a chododd bwysigrwydd addysg cyfryngau cymdeithasol wrth fynd i'r afael â'r mater hwn.

Diwrnod 2

Trafodaeth

Nodwyd bod ymgysylltu ar-lein yn gymhleth oherwydd amrywiaeth llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a demograffig defnyddwyr. Galwodd y cynrychiolwyr am ddeddfwriaeth bellach i amddiffyn defnyddwyr a chodi ymwybyddiaeth o gam-drin ar-lein. Cydnabuwyd ochr gadarnhaol cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ar gyfer ymgysylltiad ieuenctid a phleidleiswyr ifanc. Nodwyd y gallai ymgysylltu fod yn llafurddwys, er y gallai deallusrwydd artiffisial gynorthwyo. Daeth y cynrychiolwyr i'r casgliad y dylid optimeiddio cyllidebau ac adnoddau ar gyfer ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol.

Nodwyd bod ymgysylltu ar-lein yn gymhleth oherwydd amrywiaeth llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a demograffig defnyddwyr. Galwodd y cynrychiolwyr am ddeddfwriaeth bellach i amddiffyn defnyddwyr a chodi ymwybyddiaeth o gam-drin ar-lein. Cydnabuwyd ochr gadarnhaol cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ar gyfer ymgysylltiad ieuenctid a phleidleiswyr ifanc. Nodwyd y gallai ymgysylltu fod yn llafurddwys, er y gallai deallusrwydd artiffisial gynorthwyo. Daeth y cynrychiolwyr i'r casgliad y dylid optimeiddio cyllidebau ac adnoddau ar gyfer ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol.



Credyd Ilun: CPA Cymru

Gweithdy D: Deallusrwydd Artiffisial mewn Seneddau – Gweithredu, Hyfforddi a Goruchwyllo

Archwiliodd y gweithdy hwn rôl deallusrwydd artiffisial mewn cyd-destun seneddol, gan ganolbwyntio ar ddefnyddiau cyfredol offer cynhyrchiol deallusrwydd artiffisial, cyfleoedd a risgiau posibl, yn ogystal â'u cymhwysiad yn y dyfodol. Tynnodd sylw at achosion defnydd ymarferol lle'r oedd deallusrwydd artiffisial eisoes yn ddefnyddiol i seneddwyr, megis drafftio areithiau, ymateb i gwestiynau etholwyr, cyfieithu cynnwys, crynhoi dogfennau, a gwella hygyrchedd trwy gynnwys fideo ac offer dwyieithog. Agorodd Steve Aiken MLA (NI) y sesiwn a nododd, er gwaethaf datblygiad deallusrwydd artiffisial, y byddai dynoliaeth ac empathi yn parhau i fod wrth wraidd profiad dynol.

Ystyriodd y panel wahanol ddulliau o gyflwyno offer AI, gan ganolbwyntio ar fentrau cyfredol y Senedd, gan gynnwys treialon Copilot parhaus, amddiffyniadau data mewnol clir, a ffocws ar Lywodraethu AI ac archwilio cyfleoedd AI. Esboniodd Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn y Senedd, fod hyfforddiant Copilot wedi cael ei gynnig drwy sesiynau TG mewnol a gweithdai dan arweiniad Microsoft sy'n benodol ar gyfer seneddwyr.

Diwrnod 2

Archwiliodd Alun Davies AS (Cymru) y risgiau, gan gwmpasu pryderon moesegol fel effaith amgylcheddol a rhagfarn, heriau'r gweithlu fel dadleoli swyddi a llai o ymgysylltiad deallusol, a bygythiadau ehangach i breifatrwydd, democratiaeth a thrafodaeth sifil. Trafodwyd cyfleoedd hefyd, gan gynnwys potensial deallusrwydd artiffisial i wella gwasanaethau etholwyr, gwella hygrychedd, a gwasanaethu fel offeryn cymorth pwerus.

Gan edrych ymlaen, pwysleisiodd y drafodaeth bwysigrwydd defnyddio deallusrwydd artiffisial fel offeryn cyfrifol. Cytunwyd bod deallusrwydd artiffisial yma i aros, felly rhaid i'r ffocws symud i sicrhau llywodraethu, deddfau a chanllawiau moesegol cryf. Dylai atebolrwydd a dilysrwydd dynol barhau i fod yn hanfodol, yn enwedig i seneddwyr. Daeth y gweithdy i ben gydag ymrwymiad i barhau â'r gweithgor trawsnewid digidol rhanbarthol a thynnodd sylw at y ffaith bod yn rhaid i'r dyfodol hefyd gynnwys gwell hyfforddiant a chefnogaeth i seneddwyr ar sut i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn effeithiol ac yn foesegol.



Credyd llun: CPA Cymru

Diolchiadau

Anerchiad i Gloi

Croesawyd y cynrychiolwyr i'r Senedd gan y Dirprwy Lywydd, David Rees AS, ar gyfer Cinio Gala a ddaeth â'r Gynhadledd i ben. Fe'i caewyd yn ffurfiol gyda sylwadau cloi gan Gadeirydd Senedd y CPA, Rhun ap Iorwerth AS.



Credyd llun: CPA Cymru

Diolchiadau

Diolchwyd i'r Llywydd Elin Jones AS, Cadeirydd Senedd y CPA Rhun ap Iorwerth AS, Clerc a Phrif Weithredwr y Senedd Manon Antoniazzi a nifer o Aelodau a staff y Senedd am eu hymrwymiad i gyflwyno Cynhadledd BIMR y CPA 2025 ac am eu lletygarwch hael.

Diolchwyd yn arbennig i Ysgrifennydd Senedd y CPA, Al Davies, ac Elin Sutton a weithiodd yn ddiflino i gynllunio a chyflwyno cynhadledd ryngweithiol ac ysgogol.



CPA British Islands and Mediterranean Region

Westminster Hall, Houses of Parliament, London SW1A 0AA

 @CPA_BIMR T: +44 (0)20 7219 5373 E: cpabimr@parliament.uk www.uk-cpa.org

Registered Charity No.1095118 | Registered Company No. 4606846  INVESTORS IN PEOPLE Silver

